# Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

## ELLS(2) 12-06(p7)

### Adolygiad Polisi Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) - E-Ymgynghori - Fforwm Trafod Ar-Lein

#### Diben

1. Rhoi gwybod i Aelodau'r Pwyllgor am fforwm trafod ar-lein i aelodau'r cyhoedd ynglyn â'r adolygiad polisi AAA (Pontio), sydd yn cael ei lansio Ddydd Llun 18 Medi.

#### Cefndir

2. Lansiwyd ymgynghoriad ynglyn â cham cyfredol yr adolygiad AAA gan Gadeirydd y Pwyllgor yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym mis Awst. Anfonwyd holiaduron ymgynghori i ystod eang o gyrff â diddordeb yn y cam hwn o'r adolygiad, yn cynnwys sampl 10% o ysgolion. Gofynnwyd i ymgyngoreion ymateb erbyn 2 Hydref. Bydd yr ymatebion yn cael eu dadansoddi gan Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau a bydd papur yn cael ei ddarparu i'r Pwyllgor ei ystyried maes o law.

#### Fforwn Trafod Ar-Lein

3. Yn ategol at yr ymgynghoriad ac i helpu i gael y sbectrwm ehangaf posibl o safbwyntiau, bydd fforwm trafod ar-lein yn cael ei lansio ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol ddydd Llun 18 Medi. Bydd y Fforwm ar gael ar <http://www.assembly-wales.org.uk/cv/> . Rydym ni wedi rhoi cyhoeddusrwydd i'r fforwm trwy ysgrifennu at bawb a dderbyniodd yr holiadur ymgynghori. Rydym ni hefyd wedi cyhoeddi datganiad i'r wasg gyda'r nod o gael cyhoeddusrwydd ehangach.
4. Bydd aelodau'r cyhoedd yn gallu postio sylwadau am eu profiadau a'u safbwyntiau ac yn gallu ymateb i farn cyfranogwyr eraill. Byddant yn gallu rhoi eu barn trwy ateb cwestiynau penodol a mwy cyffredinol. Y bwriad yw y bydd y fforwm yn para tan 16 Hydref. Byddwn yn darparu crynodeb i'r Pwyllgor o'r holl gyfraniadau yn fuan i helpu i oleuo ystyriaeth y Pwyllgor o'u hargymhellion.

#### Cynnwys Aelodau'r Pwyllgor yn y Fforwm Trafod

5. Mae croeso i Aelodau'r Pwyllgor gyfrannu at y drafodaeth ar-lein. I hwyluso hyn, mae enwau defnyddwyr pwrpasol a chyfrineiriau wedi'u creu i bob Aelod o'r Pwyllgor. Bydd Clerc y Pwyllgor yn rhoi gwybod i'r Aelodau am y rhain ar wahân.

**Camau i'w Cymryd**

6. Gwahoddir Aelodau'r Pwyllgor i nodi'r wybodaeth uchod.

**Steve George**
**Clerc y Pwyllgor**
**14 Medi 2006**